



Teitl:	Swyddog Cyswllt Busnes Tenantiaid
Lleoliad:	Gweithio Ystwyth, Hyb Bocs a Hyb Menter Goldworks
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol
Rhif y Swydd:	BGNEW
Cyflog:	Gradd 5 (£28,624 - £31,586 y flwyddyn)
Oriau:	37 awr yr wythnos
Contract:	Cyfnod Penodol (1af o Fai 2025 – 31ain o Fawrth 2026)

Crynodeb o'r Swydd

Mae cyfle cyffrous wedi codi i unigolyn brwdfrydig, dyfeisgar a hunan-gymhellol ymuno â'n Tîm Busnes ac Arloesi. Bydd y swydd yn cynorthwyo i reoli a gosod portffolio eiddo masnachol, diwydiannol a swyddfa aml-osod amrywiol (gan gynnwys Hybiau Menter) sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfle cyffrous wedi codi i unigolyn brwdfrydig, dyfeisgar a hunan-gymhellol ymuno â'n Tîm Busnes ac Arloesi. Bydd y swydd yn cynorthwyo i reoli a gosod portffolio eiddo masnachol, diwydiannol a swyddfa aml-osod amrywiol (gan gynnwys Hybiau Menter) sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r Tîm Busnes ac Arloesi gydag amrywiaeth o ddyletswyddau gan gynnwys cynnal ymweliadau ag unedau diwydiannol i ddarpar denantiaid busnes a threfnu unrhyw waith gosod sydd ei angen ymlaen llaw, archwiliadau o ganolfannau diwydiannol, swyddfeydd a menter gwag sy'n eiddo i'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth at ddibenion yswiriant. Bydd angen monitro adnewyddiadau tenantiaethau busnes a chynhyrchu incwm o bortffolio eiddo diwydiannol y Cyngor, ac archwilio unedau busnes a feddiennir lle bo angen.

Mae hwn yn gyfle perffaith i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymorth busnes cyffredinol, gosodiadau masnachol/rheoli eiddo tirol a datblygu economaidd lleol, gan fod y rôl yn hynod amrywiol a gwerth chweil.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Dyddiad Cau: 30/04/2025 – 12:00am, hanner nos

Dyddiad Cyfweld: 8fed o Fai, 2025